Codi Ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i Hybu

Gweithdy 2

Plant Oedran Cynradd

Cynulleidfa Darged	Plant Oedran Cynradd
Hyd	1 awr ar y mwyaf
Nodau	1. Codi a datblygu ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP. 2. Eu galluogi i sicrhau eu hawliau yn effeithiol ac yn hyderus o dan bob amgylchiad ac ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw yng Nghymru.
Y Deilliannau a Ragwelir	• Datblygu dealltwriaeth o'r CCUHP. • Cael trosolwg ar hawliau plant mewn perthynas â'r CCUHP. • Cydnabod manteision sicrhau eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP a chydnabod y rhwystrau sy'n eu hatal. • Helpu aelodau'r gweithdy i arfer eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP. • Nodi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn eu helpu i gadw'r momentwm, wrth sicrhau eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP.
Adnodau Gweledol	• Mae'r holl ffotograffau a chopïau o Erthyglau 1-42 o'r CCUHP ar gael yn y blygell o Adnoddau Gweledol sy'n cyd-fynd â'r gweithdai hyn.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Adnoddau'r Gweithdai

Er mwyn sicrhau neges gyson am yr CCUHP a hawliau plant a phobl ifanc ac er mwyn helpu i gyflwyno pob gweithdy, mae'r canlynol ar gael:

1. Yr CCUHP – yn blaen: papur cefndir
2. Plygell o Adnoddau'r Gweithdai sy'n cynnwys ffotograffau enghreifftiol a'r rhestr o Erthyglau'r CCUHP

Gwefannau Gwerth Eu Gweld – mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys rhestr o wefannau sy'n cynnig cysylltiadau ymlaen i wefannau eraill ac amrywiaeth o adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf a'r rheiny wedi'u datblygu"n unswydd i roi hwb i ddefnyddio'r CCUHP.

Adnoddau a Argymhellir – mae pobl sy'n gweithio ledled Cymru ym maes Addysg Hawliau wedi cynnig eu rhestr nhw o argymhellion ar gyfer adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer unrhyw waith ategol neu ddilynol.

Cynnwys	Gweithgaredd
Cyflwyno	1. Cyflwyno – yr hwylusydd ac aelodau'r gweithdy (os nad ydyn nhw'n adnabod ei gilydd eisoes). 2. Gweithgarwch dewisol i dorri'r garw – Pe bai hudlath gen i beth byddwn i'n dewis ei newid er lles plant y byd? 3. Cyflwynwch nodau'r gweithdy ac esboniwch sut mae'r sesiwn yn cyfrannu at godi eu hymwybyddiaeth o'r CCUHP a sut y bydd yn eu helpu i hybu'r CCUHP i'w cyfoedion a'u rhieni/gofalwyr. 4. Y Gêm Ddyfalu – am beth mae CCUHP yn sefyll? Naill ai drwy godi'r cardiau CCUHP (CH01) neu drwy ysgrifennu ar fwrdd neu siart droi. 5. Disgrifiwch yn fyr beth yw diben yr CCUHP – gan gyfeirio at Yr CCUHP – yn blaen (CH02).
'Sut mae'n teimlo pan fydd pobl ddim yn gwrando.'	6. Mewn parau, gofynnwch i'r aelodau ddisgrifio digwyddiad pan na wnaeth pobl wrando arnyn nhw ac adeg pan wrandawodd rhywun arnyn nhw a chymryd eu cyngor – sut roedd y ddau ddigwyddiad yn gwneud iddyn nhw deimlo? 7. Rhannwch deimladau cadarnhaol a negyddol – yr hwylusydd i'w nodi ar siart droi wrth i'r grŵp roi adborth.

Cynnwys	Gweithgaredd
Ffeindio'r ffordd o amgylch yr CCUHP – Mynegi Barn	8. Gêm Mynegi Barn ar yr CCUHP – gan ddewis yn ofalus un neu fwy o'r gosodiadau symbylu pwrpasol (CH03) neu ddyfeisio'ch gosodiadau chi'ch hun, defnyddiwch un o blith y detholiad o gardiau pleidleisio a gofynnwch i'r plant roi eu barn nhw, sef naill ai cytuno neu anghytuno. Gall hyn gael ei wneud drwy ofyn i'r grŵp bleidleisio yn eu seddi neu drwy gael cornel cytuno a chornel anghytuno yn yr ystafell neu drwy ofyn i'r aelodau ymuno â chontiniwwm mynegi barn. Er mwyn 'lleisio' eu barn fe allan nhw: • codi neu symud tuag at y cardiau pleidleisio bawd i fyny/bawd i lawr (CH04) • dangos neu symud tuag at y cardiau gwên/trist mewn lliwiau gwahanol (CH05)
Bwrdd Stori	9. Rhannwch y grŵp mawr yn grwpiau bach a rhowch ffotograff sydd wedi'i ddewis o'r adran Adnoddau'r Gweithdai (CH06) neu o'ch banc adnoddau eich hun. Gofynnwch i bob grŵp drafod eu syniadau nhw o ran beth yw'r stori y tu ôl i'r ffotograff. Gallan nhw ysgrifennu stori grŵp ar y bwrdd stori (CH07) neu adrodd y stori i'r grwpiau eraill yn y cyfnod adborthi.1 10. O'r ffeil bwrpasol o Adnoddau'r Gweithdai rhowch gopi o'r daflen What's All This Rights Stuff i bob grŵp i weld a allan nhw ddod o hyd i erthygl(au) CCUHP sy'n gysylltiedig â'u stori nhw.

Cynnwys	Gweithgaredd
Y Camau Nesaf – rhoi'r gair ar led	11. Ysgrifennwch neges destun yn y blwch pwrpasol (CH08) gan rannu "Un peth y gallaf ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu". (140 o gymeriadau). 12. Casglwch y negeseuon testun a'u gosod ar wefan Gwneud Pethau'n lawn.
Gweithgaredd Atgyfnerthu	13. Mae Llysgenhadon Ysgol (CH09) yn gynllun sy'n cael ei redeg gan Swyddfa Comisiynydd Plant mewn ysgolion cynradd ledled Cymru. Mae dau o blant yn cael eu hethol gan blant eraill yr ysgol i fod yn llysgenhadol drostyn nhw. 14. Gallai'r plant drafod manteision cael eu hysgol nhw i gymryd rhan yn y fenter a'r hyn y gallai'r fenter ei wneud iddyn nhw a'u hysgol.
Gweithgaredd Ymestyn	15. Gweithgaredd Ymestyn digidol gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant i gael ei wneud yn yr ysgol / clwb ar ôl ysgol neu gartref – Eich Hawliau (CH10).

CH01

CH01

CH01



CH01

CH01



CH03

Gêm Mynegi Barn ar yr CCUHP

"Mae angen dysgu gwers i blant drwg"

"Dylai plant a phobl ifanc gael eu gwerthu yn y farchnad ar ddydd Mawrth"

"Dylai pob plentyn/ person ifanc ddysgu am gyffuriau"

CYTUNO BAWD I FYNY WYNEB Â GWÊN

"Dylai pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru ddysgu siarad Cymraeg"

"Dylai plant gael smacen os ydyn nhw wedi gwneud rhywbeth o'i le"

ANGHYTUNO BAWD I LAWR WYNEB TRIST

"Dim ond plant da ddylai gael chwarae, fel gwobr"

"Dylai plant gael eu gweld ond nid eu clywed"

"Dylai oedolion siarad â'u plant cyn gwneud penderfyniadau pwysig"

CH04

CH04

CH05

CH05

CH08

Eich Hawl Chi – Eich Stori Chi

Rhif yr Erthygl yn yr CCUHP:

Ein Stori Ni…

CH09

Rhoi'r gair ar led

Yn y lle isod ysgrifennwch neges destun i ddweud wrth eich ffrindiau am yr CCUHP a'r hyn mae'n gallu ei wneud drosoch chi

CH10

Y Comisiynydd Plant – Llysgenhadon Ysgol

Mae Llysgenhadon yn gynllun rydyn ni'n ei gynnal mewn ysgolion cynradd ledled Cymru. Caiff dau blentyn eu hethol gan blant eraill yr ysgol i fod yn llysgenhadon.

Mae llysgenhadon yn gwneud tri phrif beth:

1. Dweud wrth blant yn eu hysgol am Gomisiynydd Plant Cymru
2. Dweud y cyfan am hawliau plant ac am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth y plant yn eu hysgol.
3. Gyda chyngor yr ysgol, darganfod beth mae plant yn yr ysgol yn meddwl y gellid ei wneud yn well ac wedyn gweithio gyda phobl eraill yn yr ysgol i newid pethau.

Mae'r llysgenhadon yn cael pecyn cymorth gyda llawer o syniadau ynddo am sut i wneud eu tasgau, ac maent yn cael llawer o help i wneud y pethau hyn gan eu hathrawon.

Lawrlwythwch y pecyn cymorth i Lysgenhadon.

Lawrlwythwch y nodiadau i athrawon ar gyfer y cynllun Llysgenhadon.

CH11

Dewis Digidol gan y Comisiynydd Plant - Gêm Eich Hawliau

E-weithdy pobl ifanc

Gêm Eich Hawliau

Gêm ryngweithiol am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae hawliau gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18, ac mae'r hawliau yna yn un rhestr hir, o'r enw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yr her i ti yw archwilio'r map o'r gymuned a chasglu dy holl hawliau ar y ffordd. Rhaid i ti ymweld â'r pedwar safle ar y map a chwblhau pob her er mwyn croesi i'r ynys siâp seren. Yno byddi di'n casglu tystysgrif bersonol 'Gwybod dy Hawliau' i brofi dy fod ti'n gwybod am dy hawliau i gyd.

Fe allwch chi hefyd ddarllen fersiwn testun o'r gêm a rhestr lawn o'r Hawliau.